Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Myrddin
# Heol Disgwylfa
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA31 1TE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith · Cyrraedd y Nod · The Corporate Standard · Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd · Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Sirol Myrddin ym 1960 ac mae wedi'i lleoli yn nhref Caerfyrddin.

Mae 116 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oedran cymysg yn y brif ffrwd ac uned anghenion arbennig ynghlwm. Sefydlwyd Uned Anghenion Arbennig Myrddin ym 1975, ac mae ganddi bedwar dosbarth arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog. Er 1999, mae'r uned wedi darparu addysg i ddisgyblion ar y sbectrwm awtistig. Mae dau ddeg tri o ddisgyblion yn mynychu Uned Myrddin o rannau amrywiol o'r awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sy'n economaidd ddifreintiedig. Mae gan bedwar deg tri y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 43% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan 22% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canrannau hyn yn llawer uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae naw deg pedwar y cant o ddisgyblion yn Wyn Prydeinig, 3% o hil gymysg a 3% o grwpiau ethnig eraill. Daw naw deg pump y cant o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae pump y cant o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Yn unol â pholisi iaith yr awdurdod lleol, mae'r ysgol wedi'i dynodi yn ysgol 'Categori B', sy'n golygu mai Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu. Addysgir Cymraeg fel ail iaith. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i un disgybl.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Myrddin yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £7,070 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r isafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Sirol Myrddin yn y chweched safle o'r 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod pob disgybl yn Uned Myrddin yn gwneud cynnydd da iawn;
- bod bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda a bod ganddynt agweddau da tuag at ddysgu;
- bod gan staff berthynas waith gref gyda'r disgyblion;
- bod darpariaeth a chyfleoedd dysgu da iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn Uned Myrddin; a
- bod yr ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar ar gyfer disgyblion ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau arbenigol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni.

Fodd bynnag:

- bernir bod safonau disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ddigonol ar y cyfan;
- nid yw'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion prif ffrwd yn ddigon heriol;
- nid yw'r asesu a'r asesu ar gyfer dysgu wedi'i ddatblygu digon; ac
- mae diffygion yn y gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod yr ysgol wedi ymateb yn dda i argymhellion o'r arolygiad diwethaf;
- bod pob un o'r staff yn rhannu gweledigaeth a diben cyffredin sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer pob disgybl;
- bod yr ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; a
- bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol sydd wedi'u cyfeirio tuag at fodloni anghenion disgyblion.

Fodd bynnag:

- ni chaiff cyfrifoldebau arwain eu dosbarthu'n ddigon effeithiol;
- megis dechrau datblygu y mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol i'r ysgol;
- nid yw'r cysylltiadau rhwng hunanarfarniad yr ysgol a'r cynllun datblygu ysgol yn ddigon clir; ac
- nid yw'r meini prawf llwyddo yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon penodol na mesuradwy nac wedi'u cysylltu'n ddigon da â chynnydd disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella safonau disgyblion, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg;

A2 gwella cynllunio'r cwricwlwm a chynllunio medrau i sicrhau bod disgyblion prif ffrwd yn cael eu herio'n briodol ac yn cael cyfleoedd i ysgrifennu at ddibenion estynedig;

A3 datblygu prosesau cadarn ar gyfer asesu dysgu, ac asesu ar gyfer dysgu;

A4 gwella cysondeb yr addysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd;

A5 sicrhau bod gofynion diogelu'n cael eu bodloni;

A6 cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol;

A7 sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn benodol a mesuradwy; a

A8 datblygu gallu'r llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sylfaenol a chymdeithasol islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn cyflawni safonau digonol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn Uned Myrddin yn cyflawni'n dda iawn yn unol â'u gallu ac yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflawni eu targedau. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn gwneud cynnydd digonol.

Yn y meithrin a'r derbyn, mae medrau siarad, gwrando a chreu marciau disgyblion yn datblygu'n dda. O oedran cynnar, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig i yngan geiriau newydd ac maent yn magu hyder fel darllenwyr ac ysgrifenwyr wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ni chaiff lleiafrif sylweddol ohonynt eu herio'n ddigon da, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni'r safonau y gallent eu cyflawni bob amser.

Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn dda mewn gwaith llafar ac mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol mewn darllen. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod eu hoff awduron neu lyfrau y maent wedi'u darllen o'r blaen. Fodd bynnag, nid oes gan lawer ohonynt strategaethau cadarn ar gyfer darllen geiriau anghyfarwydd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a chywir. Dangosir dilyniant digonol yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion. Prin yw'r disgyblion sy'n ysgrifennu'n dda yn estynedig. Nid oes rhuglder a strwythur i ysgrifennu llawer o ddisgyblion; mae cyflwyniad eu gwaith a'u llawysgrifen yn anniben.

Mae cynnydd disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith yn ddigonol.

Caiff y gyfran uchel o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig effaith andwyol ar ddata perfformiad yr ysgol. At ei gilydd, pan ystyrir perfformiad disgyblion prif ffrwd ar wahân, mae canlyniadau'r ysgol yn cymharu'n ddigonol â chanlyniadau'r teulu ac ysgolion tebyg eraill ar y cyfan.

Yng nghyfnod allweddol 1, yn 2011, ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch (lefel 3) mewn Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, bu gwelliant sylweddol yng nghanran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) mewn mathemateg. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 1, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth, a bechgyn wedi perfformio'n well na merched mewn mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched wedi perfformio cryn dipyn yn well na bechgyn mewn Saesneg, Cymraeg fel ail iaith, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob pwnc, a’r bwlch rhwng bechgyn a merched yw’r mwyaf yn y teulu o ysgolion mewn llafaredd, darllen, ysgrifennu a gwyddoniaeth.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd priodol dros y pedair blynedd diwethaf ar y cyfan.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod briodol o weithgareddau corfforol. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn manteisio ar y clwb brecwast.

Er bod llawer o ddisgyblion yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i ddatrys problemau, megis dechrau datblygu y mae eu gallu i wella eu dysgu eu hunain. Nid yw llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd eto mewn cyfrannu at gynllunio’r hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau. Mae’r disgyblion ar y cyngor ysgol yn frwdfrydig ynglŷn â’u gwaith ac maent wedi dylanwadu ar ddarpariaeth yr ysgol, er enghraifft, trwy gynllunio i wella’r man chwarae y tu allan. Mae cysylltiadau â’r gymuned fel busnesau lleol, y glerigiaeth ac eglwysi lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn dda.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae disgyblion prif ffrwd yn rhyngweithio’n dda iawn gyda disgyblion o Uned Myrddin.

Mae presenoldeb disgyblion wedi codi rhywfaint yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae mentrau priodol ar waith i’w wella ymhellach. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn parhau i fod yn y 50% is o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg eraill. Mae bron pob disgybl yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cynllunio athrawon yn Uned Myrddin yn dda iawn. Maent yn addasu profiadau dysgu yn dda iawn i fodloni ystod eang o anghenion disgyblion. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio rhaglenni arloesol a phersonol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Darperir ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy’n datblygu medrau a lles disgyblion yn effeithiol iawn.

Fodd bynnag, nid yw cynllunio yn y dosbarthiadau prif ffrwd yn sicrhau bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn datblygu’n systematig wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Er bod cynlluniau gwersi yn cyfeirio’n gyffredinol at ddatblygu medrau, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Nid yw profiadau dysgu'n bodloni anghenion pob disgybl bob amser. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw'r cynllunio yn rhoi digon o her i ddisgyblion, ac nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol. Mae disgyblion yn llenwi gormod o daflenni gwaith, ac o ganlyniad, mae'r cyfleoedd a gânt i ysgrifennu'n estynedig at ystod o ddibenion yn gyfyngedig.

Cyfyngedig yw'r cyfleoedd yn y cwricwlwm i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a'u rhan mewn cymuned fyd-eang. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn briodol ar draws yr ysgol, gyda defnydd da o Gymraeg achlysurol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.

**Addysgu: Digonol**

Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, ac mae gan bob un o'r staff berthynas waith gref gyda disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn dda.

Mae'r addysgu yn Uned Myrddin yn gyson dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar wybodaeth feddygol, nyrsio a pharafeddygol werthfawr, ac maent yn brofiadol iawn wrth fodloni anghenion y disgyblion. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn Uned Myrddin. Mae monitro ac asesu cynnydd unigol disgyblion yn fanwl yn arwain at gynllunio wythnosol hynod effeithiol sy'n gysylltiedig â chynlluniau addysg ac anghenion unigol disgyblion. Mae staff yn gosod targedau tymor byr heriol, ac mae gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae ffocws clir mewn sesiynau addysgu, gyda defnydd da iawn o ganmoliaeth ac anogaeth i gymell pob disgybl.

Mewn dosbarthiadau prif ffrwd, mae safon yr addysgu'n amrywiol. Pan mae'r addysgu'n dda, mae'r gwaith yn addas ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion, ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Hefyd, mae rhediad da i'r gwersi, ac mae'r gweithgareddau a gynllunnir yn cymell y disgyblion. Pan mae'r addysgu'n llai llwyddiannus, nid yw gwersi'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion, nid yw'r cwestiynau yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain, ac nid yw'r gweithgareddau wedi'u haddasu'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion.

Mae diffygion mewn gweithdrefnau asesu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Caiff data ei gasglu, ond ni chaiff ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu grwpiau o ddysgwyr neu unigolion. Nid yw'r prosesau i sicrhau cysondeb mewn asesu yn drylwyr. Rhoddir adborth llafar da mewn gwersi i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon yn ddigon clir i alluogi disgyblion i wella eu gwaith. Mae ansawdd marcio a gosod targedau athrawon yn anghyson rhwng dosbarthiadau. Nid yw'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u datblygu digon.

Mae'r adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn cydymffurfio â gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae pob aelod o staff yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn annog disgyblion yn llwyddiannus i ddangos goddefgarwch a pharch

at ei gilydd ac yn hyrwyddo byw yn iach yn dda. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r gwasanaethau ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu datblygiad ysbrydol a moesol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau arbenigol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni. Cynigir hyfforddiant i sicrhau bod staff yn cael y cymorth cywir er mwyn bodloni'r anghenion hynny.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu wedi cael eu datblygu'n llawn.

Mae darpariaeth eithriadol ar gyfer disgyblion yn Uned Myrddin. Mae pob disgybl yn manteisio ar holl feysydd y cwricwlwm ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda llawer o asiantaethau allanol yn rheolaidd i roi'r cymorth cywir i bob disgybl. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i ymgynghori â rhieni; caiff pob rhiant lyfr cofnod manwl yn nodi cynnydd eu plentyn bob wythnos, ac mae rhieni'n cyfathrebu'n rhwydd â'r staff. Cynhelir asesiadau risg manwl yn rheolaidd i gynnwys ymweliadau oddi ar y safle a darpariaeth yn yr ysgol. Mae effaith cymorth o'r fath ar gyfer y disgyblion yn sicrhau'r cynnydd gorau posibl.

Fodd bynnag, bernir bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ddigonol ar y cyfan. Ni chaiff anghenion disgyblion eu bodloni'n ddigon da neu'n ddigon buan bob amser. Gosodir targedau trwy gynlluniau addysg unigol, ond mae'r ffaith nad yw'r targedau'n cael eu harfarnu'n rheolaidd yn golygu nad yw cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro'n ddigonol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae awyrgylch gofalgar a chyfeillgar yn yr ysgol, gyda disgyblion ac oedolion yn cyfleu agweddau o barch a chwrteisi. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn amgylchedd cynhwysol lle caiff disgyblion fynediad cyfartal i holl feysydd y ddarpariaeth. Mae lefel dda iawn o ryngweithio rhwng disgyblion yn y dosbarthiadau prif ffrwd a disgyblion yn Uned Myrddin.

Mae gan Uned Myrddin gyfleusterau ac adnoddau rhagorol, ac mae'r arddangosiadau yn ysgogol a lliwgar. Fodd bynnag, yn y brif ffrwd, bernir bod adeiladau ac adnoddau yn ddigonol, ac ni wneir digon o ddefnydd o leoedd arddangos i ddathlu cyflawniadau disgyblion.

Caiff adeilad yr ysgol ei gynnal i safon dderbyniol. Gwneir defnydd effeithiol o leoedd yn yr awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae pob un o'r staff yn rhannu gweledigaeth a diben cyffredin sy'n canolbwyntio ar wella'r deilliannau ar gyfer pob disgybl. Mae'r cynllunio strategol yn nodi

blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ysgol sydd wedi'u cyfeirio tuag at fodloni anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu strwythurau gwell i gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno systemau gwell i olrhain cynnydd disgyblion a chynllunio datblygiad cliriach. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r prosesau hyn ac nid ydynt wedi effeithio ar ddarpariaeth a safonau eto.

Mae gan arweinwyr a staff rolau a chyfrifoldebau priodol. Mae llinellau atebolrwydd yn glir. Fodd bynnag, ni chaiff cyfrifoldebau arwain eu dosbarthu'n ddigon effeithiol i effeithio'n llawn ar welliannau mewn dysgu ac addysgu.

Mae cyfarfodydd ysgol yn canolbwyntio'n addas ar fusnes craidd yr ysgol ac yn rhoi cyfle i staff rannu syniadau am ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu diweddar, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu clir gyda chyfrifoldebau penodol.

Mae uwch arweinwyr yn mynd i'r afael â thanberfformio yn briodol. Mae'r ysgol wedi cefnogi staff i ddatblygu eu harfer. Mae system rheoli perfformiad sy'n alinio targedau staff unigol â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, neu o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ysgol, yn gyfyngedig. Nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol wedi'i datblygu digon.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Yn benodol, mae'r ysgol yn rhoi strategaethau ar waith i wella medrau llythrennedd disgyblion ac mae'n datblygu dulliau i fynd i'r afael â difreintedd.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan yr ysgol broses glir ar gyfer hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn dda ac yn casglu gwybodaeth i roi disgrifiad manwl a thrylwyr o'r ysgol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cywir o'r ysgol mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, mewn rhai adrannau, nid yw'r adroddiad yn amlinellu meysydd i'w gwella yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau ar gyfer casglu gwybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu, yn cynnwys monitro gwersi, arsylwadau cymheiriaid, a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynnydd disgyblion bob amser, ac ni chaiff deilliannau eu dadansoddi'n ddigon da i lywio strategaethau gwella.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddo ar gyfer y camau yn ddigon penodol neu fesuradwy. Nid yw'r cysylltiadau rhwng hunanarfarniad yr ysgol a'r cynllun datblygu ysgol yn ddigon clir.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn grwpiau sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer broffesiynol yn yr ysgol a gydag ysgolion eraill. Mae'r grwpiau

hyn yn rhoi cyfleoedd da iawn i athrawon ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.  Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn wedi cael effaith ar arfer ysgol gyfan mewn addysgu a dysgu eto.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys darparwyr hyfforddiant, gwasanaethau'r awdurdod lleol, rhieni a'r gymuned, i wella safonau a lles disgyblion.  Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda sawl seicolegydd o'r awdurdod lleol a swyddogion cynnydd disgyblion yn ogystal ag ysgolion arbennig a chyfleusterau arbennig eraill, y mae pob un ohonynt yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth i ddisgyblion.

Mae gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill yn helpu i ddatblygu arfer athrawon mewn meysydd fel medrau allweddol ac asesu, ac wrth sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei safoni'n effeithiol.  Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau priodol i helpu disgyblion i drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.  Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i ymweld â'r ysgolion uwchradd i hwyluso'r broses drosglwyddo.  Mae disgyblion o Uned Myrddin yn elwa'n dda iawn ar y gweithdrefnau hyn.

**Rheoli adnoddau:  Da**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithlon.  Mae wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.  Caiff staff eu defnyddio'n dda ar y cyfan i wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u harbenigedd.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid yn effeithiol i gynnal cyllideb fantoledig yn llwyddiannus.  Mae'n datblygu systemau cadarn i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei gyfeirio'n effeithiol tuag at flaenoriaethau strategol.  Mae system glir ar gyfer dyrannu ac adolygu cyllid.

O ystyried safonau a chynnydd disgyblion yn gyffredinol, bernir bod y gwerth am arian yn ddigonol.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae gan yr ysgol gyfleuster addysgu arbenigol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u galluoedd a'u mannau cychwyn.

Wrth ddadansoddi cyrhaeddiad disgyblion mewn perthynas â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, mae'n bwysig ystyried bod data perfformiad yr ysgol yn cynnwys canlyniadau pob un o ddisgyblion yr ysgol. Pan ystyrir data cyrhaeddiad disgyblion prif ffrwd ar wahân i'r cyfleuster arbenigol, mae'r ysgol yn cymharu'n well â chyfartaleddau'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod gryn dipyn yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf, er bod y bwlch mewn perfformiad wedi lleihau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn llafaredd yn is na chyfartaledd y teulu, gyda darllen ac ysgrifennu gryn dipyn yn is.

Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi bod gryn dipyn yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf, ond mae'r bwlch wedi lleihau; roedd perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf yn 2011.

Pan gaiff data cyrhaeddiad disgyblion prif ffrwd cyfnod allweddol 1 ei ystyried ar wahân i'r cyfleuster arbenigol, mae'r ysgol wedi perfformio'n well na chyfartaledd y teulu mewn gwyddoniaeth am y pedair blynedd diwethaf ac mewn Saesneg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a mathemateg wedi aros islaw cyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf.

O gymharu ag ysgolion y mae canrannau tebyg o'u disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd y canlyniadau ar gyfer cyfnod allweddol 1 yn 2011 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion ar gyfer gwyddoniaeth, y 50% is ar gyfer Saesneg, ac yn y 25% isaf o ysgolion ar gyfer mathemateg. Pan ystyrir canlyniadau ar wahân i'r cyfleuster arbenigol, mae'r data yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion ar gyfer gwyddoniaeth a Saesneg a'r 50% is ar gyfer mathemateg. Roedd canran y disgyblion sy'n perfformio ar y lefel 3 uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu yn 2011, ac ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion lefel 3 yn unrhyw un o'r pynciau.

Mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth am dair o'r pedair blynedd diwethaf, yn cynnwys 2011, er bod y gwahaniaethau ar gyfer gwyddoniaeth wedi bod yn fach. Mae bechgyn wedi perfformio'n well na merched mewn mathemateg am dair o'r pedair blynedd diwethaf, yn cynnwys 2011.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r perfformiad mewn Saesneg ar lefel 4 wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn is na chyfartaledd y teulu ar gyfer 2011, a pherfformiad mewn darllen yw'r isaf yn y teulu.

Roedd perfformiad mewn Cymraeg fel ail iaith am y ddwy flynedd ddiwethaf yn is na chyfartaledd y teulu.

Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf. Bu gwelliant nodedig yn 2011, gyda pherfformiad yn agos iawn at gyfartaledd y teulu.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf.

Pan ystyrir data cyrhaeddiad disgyblion prif ffrwd cyfnod allweddol 2 ar wahân i ddata o'r cyfleuster arbenigol, mae'r ysgol wedi perfformio'n well na chyfartaleddau'r teulu mewn gwyddoniaeth a mathemateg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a Saesneg wedi aros islaw cyfartaledd y teulu am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

O gymharu ag ysgolion y mae canrannau tebyg o'u disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau ar gyfer cyfnod allweddol 2 wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion ar gyfer mathemateg a'r 25% isaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth.

Pan ystyrir canlyniadau ar wahân i'r cyfleuster arbenigol, mae'r data yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion ar gyfer mathemateg, y 50% uwch ar gyfer gwyddoniaeth a'r 50% is ar gyfer Saesneg. Mae canran y disgyblion sy'n perfformio ar y lefel 5 uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu yn y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, canrannau 2011 oedd yr uchaf mewn pedair blynedd ar gyfer pob pwnc, gyda pherfformiad mewn Saesneg o fewn un pwynt canran o gyfartaledd y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, tanberfformiodd y bechgyn ar draws pob pwnc, a'r bwlch rhwng bechgyn a merched yw'r mwyaf yn y teulu o ysgolion ar gyfer Saesneg, llafaredd, darllen ac ysgrifennu, ac ar gyfer gwyddoniaeth.

Mae merched wedi perfformio cryn dipyn yn well na bechgyn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio gryn dipyn yn well na disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth canfyddadwy mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y brif ffrwd yn gwneud cynnydd digonol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Llenwyd yr holiadur gan dri deg dau o rieni neu ofalwyr. Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cymariaethau meincnod ar gyfer holiaduron i ddysgwyr.

Mae pob un o'r rhieni'n teimlo y gwnaeth eu plentyn ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol a'i fod/bod yn gwneud cynnydd. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod yr addysgu'n dda, bod staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed i wneud eu gorau a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywed pob un o'r rhieni eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un o'r rhieni'n mynegi boddhad cyffredinol â'r ysgol ac yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Mae bron pob un o'r rhieni o'r farn fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, a bod staff yn parchu disgyblion. Mae bron pob un o'r rhieni'n credu bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion ychwanegol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod ystod dda o weithgareddau yn cynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan bedwar deg dau o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cyd-fynd â'r cymariaethau meincnod ar gyfer holiaduron i ddysgwyr.

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt bryderon. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr athrawon a'r oedolion yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd; maent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Maent yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae pob disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i gadw'n iach, ac mae bron pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith yn y dosbarth.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stella Gruffydd | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Enir Rees Morgan | Arolygydd Tîm |
| Julie Ann Price | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Julian Parker (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.